Beibl i Blant
yn cyflwyno

Ruth: stori garu

Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Janie Forest
addaswyd gan: Lyn Doerksen
Alastair P.
Cyfieithydd: Catrin Roberts
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

BFC
PO Box 3
Winnipeg, MB R3C 2G1
Canada

©2020 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Petai ti'n gallu cyfarfod dy hen hen nain a taid, eu rhieni nhw a phawb yn dy deulu cyn hynny, mae'n bosib y byddet ti'n synnu gweld sut bobl oedden nhw. Rydyn ni'n dysgu yn y Beibl mai Ruth, gwraig o wlad Moab oedd un o hen-neiniau Iesu, gwraig oedd yn arfer addoli delwau.

Mae stori Ruth yn cychwyn yn Israel ar ôl i Samson farw. Roedd pobl Dduw wedi stopio ufuddhau i Dduw a gwrando arno. Daeth newyn mawr i'r wlad. Wyddoch chi beth ydy newyn? Ie – dim cnydau na bwyd yn tyfu, a'r anifeiliaid a hyd yn oed y bobl yn marw achos bod dim bwyd.





Un diwrnod gadawodd dyn o'r enw Elimelech, ei wraig a'i ddau fab eu cartref yn Bethlehem er mwyn chwilio am fwyd. Aethon nhw i Moab, gwlad lle roedd y bobl yn addoli delwau.



Aeth
pethau'n
wael i Elimelech a'i deulu yn Moab.
Dyma Elimelech yn marw, a'i ddau
fab hefyd.



Dim ond Naomi
oedd ar ôl a dwy wraig y meibion, Ruth ac
Orpah. Roedd y ddwy ferch yn dod o Moab.

Roedd Naomi nawr yn weddw. Clywodd bod yr ARGLWYDD wedi rhoi bwyd i'w bobl. Penderfynodd fynd yn ôl i'w chartref. Ond beth am y merched? Dywedodd Ruth wrthyn nhw am aros yn Moab er mwyn cael cyfle i briodi eto.



Aeth Orpah yn ôl at ei theulu. Ond gwrthododd Ruth. Yn lle hynny dywedodd wrth ei mam yng nghyfraith ei bod hi'n mynd i aros gyda hi am byth.

Roedd hen ffrindiau Naomi yn falch ei bod hi'n ôl yn Bethlehem. Ond gofynnodd iddyn nhw ei galw'n "Mara" (chwerw) ac nid Naomi (dymunol). "Mae'r Un sy'n rheoli popeth wedi gwneud fy mywyd i yn chwerw iawn." Dim ond Ruth oedd gan Naomi.



Roedd Ruth yn arfer addoli delwau fel pawb arall yn Moab, ond stopiodd wneud hynny a dechrau addoli Duw Byw Israel. Gweithiodd Ruth yn galed fel bod gan Naomi ddigon i'w fwyta. Byddai'n mynd allan i gasglu'r grawn oedd dros ben yn y caeau.







Clywodd Boas, perchennog y cae, pa mor dda oedd Ruth yn gofalu am ei mam yng nghyfraith. Ar ôl iddyn nhw gyfarfod, rhoddodd Boas help iddi wrth ddweud wrth ei weithwyr am adael sypiau o rawn wedi fwriadol ar lawr. Roedd Boas yn dechrau hoffi Ruth.

Pan ddywedodd Ruth wrth Naomi am garedigrwydd Boas, dyma hi'n dechrau moli Duw. "Mae'r dyn yna'n perthyn yn agos i ni."



Ymhen amser, roedd Boas eisiau priodi Ruth a gofalu am Naomi a thir ei theulu. Ond roedd rhywun yn perthyn yn agosach. Roedd y dyn hwnnw eisiau'r tir – ond doedd e ddim isio priodi Ruth. Yn ôl y gyfraith doedd dim hawl ganddo i gael un heb y llall.

Bryd hynny, doedd pobl ddim yn ysgwyd llaw er mwyn setlo cytundeb. Tynnodd Boas ei sandal a'i roi i'r dyn arall o flaen pawb. Roedd y mater wedi ei setlo.



Byddai Ruth yn priodi Boas, a byddai hi a Naomi yn rhan o deulu Boas.

Rhoddodd Boas a Ruth yr enw Obed i'w mab cyntaf. Fe oedd taid Dafydd, Brenin mawr Israel.

Ond hyd yn oed yn fwy rhyfeddol, roedd y babi Obed yn un o gyndeidiau'r Arglwydd Iesu Grist. Roedd Iesu yn un o ddisgynyddion Dafydd. Fe yw Brenin y brenhinoedd ac Achubydd yr holl fyd.



Ruth: stori garu

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Ruth

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16